

Cariad

Darllen: 1 Ioan 3:18

Mae'r neuadd dan ei sang o bobl o bob oed a ddaeth ynghyd i wrando ar efengylwr o fri. Ar ôl canu emyn a darllen o Efengyl Ioan, mae yntau'n mynd rhagddo i annerch y gynulleidfa. Does dim pall ar ei huodledd, ac mae'r gynulleidfa'n ymateb yn frwd, a llawer ohonyn nhw ar eu traed, eu llygaid ar gau a'u dwylo'n chwifio'n yr awyr. Ond yn sydyn, mae'r efengylwr yn troi tu min ac yn galw ar wahanol bobl i adael y neuadd. Mae'n dechrau gyda'r rhai sy'n anffyddwyr ac yna'r rhai sydd wedi dod yno i watwar. Mae'r gynulleidfa'n syfrdan. O dipyn i beth, mae criw o ieuenctid yn cerdded yn araf tua'r drws, ac meddai'r efengylwr, 'Does yna ddim lle i chi yma. Yn ôl a chi at eich merched a'ch cwrw.'

Mor wahanol oedd ei agwedd i'r hwn oedd yn mynnu cwmni'r casglwyr trethi a'r pechaduriaid, ac yn mynnu eistedd a bwyta efo nhw. Nid beirniadu, gweld bai a chondemnio pobl am eu pechodau a wnaeth Iesu, ond yn hytrach gymysgu â nhw a chlosio atyn nhw. Roedd y bobl grefyddol wedi eu syfrdanu gan y fath ymddygiad. Iddyn nhw, roedd hyn yn sgandal llwyr. Ond i'r tlawd, y difreintiedig, y pechadurus, a'r rhai yr oedd y bobl grefyddol yn eu condemnio roedd hyn yn llawenydd, ac yn fodd i'w codi a'u dyrchafu.

Doedd Iesu ddim yn trin pechod yn ysgafn, ond dyma oedd ei ffordd o argyhoeddi pobl a'u dysgu nad oedd Duw wedi anghofio amdany'n nhw. Pa mor bell bynnag oedden nhw wedi mynd oddi wrth Dduw, pa gymhlethdodau bynnag oedd yn eu llyffetheirio, doedd Duw ddim wedi torri cysylltiad â nhw. Y munud y byddwn ni eisiau Duw, mae o'n barod i'n harwain. Y munud y byddwn ni'n dweud bod yn ddrwg gynnon ni, gallwn brofi llawenydd maddeuant.

Yr hyn oedd yn gwylltio Iesu oedd y dybiaeth ymhlith rhai nad oedd angen maddeuant arny'n nhw. Ac ymhlith y rhain roedd y bobl grefyddol. Yn yr

iaith Aramaeg, iaith gyntaf Iesu, mae'r gair 'pechod' yn golygu 'dyled'. 'Maddau i ni ein dyledion.' Maddau i ni am wrthod caru'r rhai sy'n erfyn am ein cariad. Maddau i ni am wrthod rhoi ein hunain i eraill, a maddau i ni am niweidio eraill.

Mor aml rydyn ni'n camddeall a chamddehongli'r Ffydd Gristnogol. Nid mater o gadw'n gaeth at gyfres o reolau, na byw bywydau parchus, na gwadu ein teimladau mewnol ydi'r Efengyl Gristnogol. Mae'r Efengyl yn ymwneud â Duw sydd wedi ei ddatguddio'i hun yn Iesu, a ddaeth i wella'r claf a maddau i'r pechadur. Bu Iesu fyw a marw er mwyn dangos unwaith ac am byth fod Duw yn caru pob un o'i blant. Dydi'r Cristion ddim yn haeru ei fod yn well na neb arall. Unigolyn mewn angen ydi yntau, ond mae yna un gwahaniaeth – mae ganddo'r profiad fod ei ddyled wedi ei thalu.

Myfyrdod pellach:

Ydyn ni'n rhy llawdrwm ar bobl nad ydyn nhw'n cyrraedd ein safonau ni?

Ydych chi'n perthyn i eglwys sy'n barod i rwygo'r gynulleidfa neu'n barod i gyfannu?